

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Ionawr 15, 2024 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cyngorwyr Meurig Ashton (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Geraint Evans, Robin Jones. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd. Croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf 2024.

2. Ymddiheuriadau: Llion Williams, Karen Goswell.

3. Datgan diddordeb.

Eitem 7. dd. Roedd Rhun Prys Jones yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllun.

Eitem 7. e. Roedd Geraint Evans yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllun.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 21, 2023.

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 21, 2023.

Eitem 5. Eitem 11.a.,b. Llythyr (23/11/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn ymateb i faterion codwyd yn ein cyfarfodydd Hydref a Tachwedd 2023 i gael cyfarfod ar y safle ar 29/11/2023 am 10:00yb i drafod y 'bont' ar Ffordd Lefel, pont droed wrth Tyddyn-du, Hermon.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Wedi'r cyfarfod derbyniwyd llythyr (16/1/2024 trwy law Delyth Ll. Griffiths) oddi wrth Dylan E. Davies, YGC, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

1. mae cerbyd Gwasanaeth Tân yn medru mynd drwy'r darn cul lle mae'r bont Ffordd Lefel. Mae YGC yn sylweddoli bod problem gyda thractor a threlars mawr a loriau eraill yn y lleoliad.

2. I rwystro beiciau modur defnyddio'r bont droed wrth Tyddyn-du mae polion a ffens wedi eu gosod i geisio culhau'r llwybr. Bydd man waith yn cael ei wneud i drwsio gwyneb pop ochr y bont pryd fydd y tywydd yn caniatáu.

Penderfynwyd gofyn i YGC pryd maent am wneud y gwaith o symud y bont sydd ar Ffordd Lefel a llenwi y gwagle gyda defnydd priodol. Dyna syniad cafwyd ar y safle.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 15, 2024

Eitem 8.ch. Llythyr (12/1/2024) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod y taliad i'r Clerc a Cyllid a Thollau EM.

Gofynnwyd iddynt am fwy o wybodaeth

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/11/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

1. bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth yn 4 – 8/12/2023

2. bydd gwaith torri coed sydd wedi cwmpo yn cael ei wneud ar Llwybr Ceffyl 129, Rhydymain.

b. Llythyr (28/11/2023) oddi wrth Diolch am 20mya yn rhoi gwybodaeth ar ddiweddaraf ar y rheol 20mya ar ein ffyrdd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (6/12/2023) oddi wrth Tim Tacluso Ardal Ni yn rhoi manylion linc i'r Tim i gael gwybod eu hymweliad i'r ardal a sut i greu ceisiadau am waith drwy lenwi holiadur ar <http://www.gwynedd.llyw.cymru/timtacluso>

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (11/12/2023) oddi wrth Gwasanaeth Gwybodaeth Traffic Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod bydd gwaith trwsio ar rannau o'r ffordd A494 yn Rhydymain rhwng 18/12/2023 a 20/1/2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (12/12/2023) oddi wrth Gwasanaeth Gwybodaeth Traffic Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod mai ailwynebu a draenio cilfach barcio ger Rhydymain bydd y gwaith.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

d. Llythyr (12/12/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am waharddiad trafniadaeth dros dro ar ffordd ddi-ddosbarth ym Mrithdir ger Maes Garafanau Llwyn yr Helm. Bydd y ffordd ar gau ar 12/12/2023 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 15, 2024

dd. Llythyr (19/21/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionydd bydd yn cael ei gynnal ar 3/1/2024 am 7.00yh ar Zoom. Amgáu mae Agenda, a Chofnodion cyfarfod 4/10/2023.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (4/1/2024) oddi wrth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (trwy law Un Llais Cymru) yn gwahodd ni i sesiwn Gwylio Cyflymder Cymunedol: [GanBwyll | Gwylio Cyflymder Cymunedol](#) ar 8/2/2024 am 7.00yh drwy Zoom. Mae aelodau'r gymuned, gyda'r Heddlu, yn defnyddio teclynnau i fonitro cyflymder cerbydau, gyda'r nod o addysgu gyrwyr i yrru'n arafach. Mae angen cofrestru trwy kaarina.ruta@wlga.gov.uk cyn 31/1/2024.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/136G. Adeiladu estyniad unllawr to brig a tho gwastad i'r drychiad Gogleddol (Ail-gais). Gwel-y-Garn, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (15/12/2023).

b. Cais cynllunio NP5/54/472. Diddymu Amod Rhif 6 (meddianaeth lleol) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/25/64 dyddiedig 21/11/1980. Tyn Y Coed, Bontnewydd.

Anfonwyd llythyr (15/12/2023) i'r Parc yn gofyn am eu caniatad i ni roi ateb i'r cais wedi ein cyfarfod misol. Gofynnwyd iddynt beth fydd oblygiadau diddymu Amod Rhif 6 a ydy'n bosib rhoi amod lleol ar yr eiddo.

c. Cais cynllunio NP5/54/575A. Gosod 8 panel solar (3KW) ar edrychiad gorllewinol y to. 34 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (8/1/2024).

ch. Cais cynllunio NP5/54/AD474. Caniatâd Hysbysebion i osod panel gwybodaeth am Daith Mari Jones. Tir ger y Neuadd Bentref, Brithdir

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

d. Cais cynllunio NP5/54/AD473. Caniatâd Hysbysebion i osod panel gwybodaeth am Daith Mari Jones. Tir ger Dolfeili, Rhydymain

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 15, 2024

dd. Cais cynllunio NP5/54/459A. Cynllun Trydan Dŵr (34kw) yn cynnwys adeiladu pwerdy, argae a 3 pont trawst. Coedwig Cefn Ceunant Isaf, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

e. Cais cynllunio NP5/54/295E. Hysbysiad o Flaen Llaw o dan Atodlen 2, Rhan 24, o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 fel y'i diwygiwyd, i osod tŵr telathrebu dellt 20 metr o uchder yn lle'r un presennol ynghyd â 3 antena 'VF CommScope', 2 ddysgl 300mm, adleoli 2 antena 'MBNL' presennol, 1 dysgl 600mm 'EE/H3G' presennol ac offer ategol. Tir yn Gwanas Fawr, Dolgellau, LL40 2SH,

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

f. Cais cynllunio. NP5/54/585A. Gosod tŵr dellt 25m yn cynnal 6 antena a 4 dysgl trawsyrru, 2 gabinet offer, 1 cabinet mesurydd trydan, 'V Sat' a datblygiad ategol i hynny, gan gynnwys unedau radio o bell (RRU's), ffens bren 1.2m a modiwl 'GPS' ar gyfer prosiect Rhwydwaith Gwledig Cymru. Tir yn Tŷ Newydd-y-Mynydd, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/11/2023) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2024 / 2025. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 26, 2024.

Praespet 2023/2024 yw £12,000.00.

Anfonwyd gwybodaeth yn awgrymu praesept i'r aelodau.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £12,000.00

b. Llythyr (5/12/2023) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at eu hapêl Cronfa Cyfle i Bawb – cronfa sy'n rhoi gwyliau am ddim i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Bil (8/12/2023) am £200.00 oddi wrth Archwilio Cymru tuag at ffiodd archwilio 2022-2023.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Derbyniwyd (27/12/2023) £490.30, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2023/2024.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 15, 2024

d. Llythyr (1/1/2024) oddi wrth Llên y Llannau. Maent angen cymorth ariannol i gyhoeddi y llyfryn Llên y Llannau. Amgáu mae copi o'u fantolen ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/11/2023: £1,159.75
Balans yn y banc ar 29/11/2023: £14,180.24.

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/12/2023: £1,161.60
Balans yn y banc ar 29/12/2023: £12,142.42.

9. Archwilio

10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Yn cyfarfod Mawrth 21, 2023, Eitem 10.f. pendrefynwyd cael bin halen wrth Forest Lodge, Llanfachreth. Y gost y bin fydd tua £400.

Ni roddwyd cais i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am fin.

Rhoddyd cais am fin ar 12/1/2024.

b. Coed y Brenin. Mabon a Delyth wedi cael cyfarfod gyda Martin Cox a Elsie Grace o Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyfoeth yn adolygu y safle ac yn ystyried dal gafael ar y maes parcio a hefyd ar traciau beics. Mae nifer yr ymwelwyr i lawr i 100,000 y flwyddyn erbyn hyn a gwariant pob un person sydd yn ymweld yn gwario £2.50. Mae Cyfoeth yn dal gafael ar bob un o'r staff parhaol. Mae angen gwario 1.5 miliwn ar yr adeiladau yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Bydd trafodaeth gyda chyngor Y Ganllwyd am y ffordd ymlaen nos yfory. Bydd cyfarfod cyhoeddus ynglŷn â'r mater ar 1/2/2023 yn Neuadd Ganllwyd.

c. Penderfynwyd holi Traffic Cymru, Llywodraeth Cymru i gael gwybod beth yw'r sefyllfa bresennol ac yn bwysicach beth yw'r cynllun i atgyweirio y ffordd A494 ger Rhydymain. Fel y gwyddoch mae'n brif ffordd o'r Bermo tua'r Dwyrain gyda llawer o drafnidiaeth arni, a cyfran sylweddol ohono'n drafnidiaeth trwm. Mae dros fis bellach ers y cyfathrebiad dwythfa pan nodwyd ganddoch fod YCG yn ymchwilio'r sefyllfa. Siawns bellach fod cynllun ac amserlen wedi ei baratoi a byddai'n dda iawn medru rhoi gwybodaeth i'r Cyngor Cymuned a'r preswylwyr lleol o'ch bwriad. Mae goleuadau traffig wedi bod yn gweithredu yma ers dau fis bellach, a rhaid cofio y bydd swm y traffig yn cynnyddu'n sylweddol dros y misoedd nesaf. Gall hyn greu mwy o broblemau i ddefnyddwyr y ffordd yn ogystal a'r posibilrwydd o ddirywiad pellach yng nghyflwr y ffordd a'r bont.

Edrychaf ymlaen i gael ymateb cadarnhaol yn fuan.

ch. Mae'n debyg bydd toriad yn gwasanaethau Cyngor Gwynedd.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 15, 2024

d. Mae'r Eglwys a Cyngor Gwynedd mewn trafodaeth ynglŷn â dyfodol Ysgol / Tŷ Llanfachreth.

11. Materion yr Aelodau

a. Mae hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned yn Rhydymain angen sylw.

Penderfynwyd cael prisiau gan:

Mr Owain B Pugh, Ty Isa, Rhydymain, Dolgellau, LL40 2BU
Jones Bros, Annedd Wen, Rhydymain, Dolgellau, LL40 2AS.

b. Mae angen symud coeden sydd ar y llain gwair rhwng yr Ysgol ar hen dai Cyngor yn Rhydymain.

Penderfynwyd anfon y mater i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd ac iddynt pasio'r mater i'r adran berthnasol, gan nad oes neb yn sicir o'r adran gywir.

c. Mae'r ffordd rhwng maes parcio ger Neuadd Rhydymain a drws yr ystafell gefn y Neuadd yn dywyll iawn. Awgrymu i Cyngor Gwynedd rhoi golau yno neu symud un o'r goleuadau presennol i oleuo'r ffordd at y drws ystafell gefn y neuadd.

Penderfynwyd i Delyth cysylltu gyda Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Llofnod:

Dyddiad:
